**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (FFORDD YMUNO TUA'R GOGLEDD YN FFYNNON TAF, RHONDDA CYNON TAF) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio cerbydau sy'n danfon llwythi annormal i Ddepo Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf, rhag mynd ar y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A470 yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf, sy'n ymestyn o'i chyffordd â Cardiff Road, 180 o fetrau i'r gogledd-orllewin o Gylchfan Cyfnewidfa Ffynnon Taf hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau o'r fath fydd teithio ar brif gerbytffordd tua'r de y gefnffordd o Gylchfan Cyfnewidfa Ffynnon Taf drwy fynd ar ffordd ymuno tua'r de y gefnffordd ac yna ymadael yng Nghyffordd 32 (yr M4) (Cyfnewidfa Coryton) i ymuno â cherbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd drwy fynd ar y ffordd ymuno tua'r gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Ionawr 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos o 20:00 o'r gloch ar 9 Ionawr 2023 hyd 06:00 o'r gloch ar 10 Ionawr 2023 ac yna ar adegau wedi eu hamserlenni tan 3 Rhagfyr 2023, ond bydd y Gorchymyn yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 TRUNK ROAD (NORTHBOUND ENTRY SLIP ROAD AT TAFFS WELL, RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles making abnormal load deliveries to the Transport for Wales Depot at Taffs Well, from proceeding on the length of the A470 northbound entry slip road at Taffs Well, Rhondda Cynon Taf, that extends from its junction with Cardiff Road, 180 metres northwest of the Taffs Well Interchange Roundabout to its junction with the main northbound carriageway of the trunk road.

The alternative route for such vehicles will be to access the southbound main carriageway of the trunk road from the Taffs Well Interchange Roundabout via the southbound entry slip road of the trunk road and then exit at Junction 32 (M4) (Coryton Interchange) to join the northbound carriageway of the trunk road via the northbound entry slip road.

The Order will come into force on 9 January 2023. The temporary prohibition is expected to operate overnight from 20:00 hours on 9 January 2023 until 06:00 hours on 10 January 2023 and then at scheduled times until 3 December 2023, although the Order will remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government